AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# In Focus

Gaeaf 2022 - Rhifyn 20

## Cylchlythyr Gaeaf AWTTC

**Diweddariad chwarterol sy'n cynnwys y newyddion a'r mewnwelediadau diweddaraf gan ein tîm amlddisgyblaethol.**

**Yn y rhifyn hwn**
**Hydref – Rhagfyr 2022 ynghylch:**

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd a chydlynu allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Dadansoddi data presgripsiynu a datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor ar wenwynau 24 awr y dydd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

### Lansio sesiynau 'Dysgu dros Ginio' ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol

Hydref 2022

Cynhaliodd AWTTC ei sesiwn diweddariad therapiwteg Dysgu dros Ginio gyntaf ar 18 Hydref a ddenodd dros 140 o gynrychiolwyr.

Mae fideos o'r sesiwn hon a mwy o fanylion am ddysgu dros ginio ar gael yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

### Adroddiadau AWTTC ar Ddatganiadau Cyngor (SOAs) a gyhoeddwyd gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)

Hydref 2022

Mae AWTTC wedi cynhyrchu adroddiadau yn edrych ar duedd a nifer yr SOAs a gyhoeddwyd dros gyfnod o bum mlynedd, ac yn archwilio'r effaith ar argaeledd meddyginiaethau yng Nghymru o'i gymharu â gwledydd eraill y DU.

Darllenwch ragor yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

### Cyfarfod Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG)

Hydref 2022

Cynhaliwyd cyfarfod rhithwir diweddaraf y Grŵp er budd Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) yn llwyddiannus ar 21 Hydref 2022. Ffocws y cyfarfod hwn oedd effaith amgylcheddol meddyginiaethau.

Darllenwch ragor yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn nodi 20 mlynedd o ddarparu mynediad cyflym a diogel at feddyginiaethau i gleifion o Gymru

Tachwedd 2022



*Wales' Health Minister Eluned Morgan*

Daeth llu o siaradwyr, cynrychiolwyr a staff ynghyd i ddathlu 20 mlynedd o waith Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn darparu cyngor ar feddyginiaethau newydd eu trwyddedu gan sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael mynediad cyflym a diogel at feddyginiaethau newydd.

Yn ystod y gynhadledd, clywodd y cynrychiolwyr gan ystod eang o siaradwyr a oedd yn gallu rhannu eu profiadau o weithio ar y cyd ag AWMSG ac amlygu'r effaith gadarnhaol y mae'r gwaith hwn yn ei chael. Agorodd Cadeirydd presennol AWMSG, yr Athro Iolo Doull, y gynhadledd yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 17 Tachwedd drwy fyfyrio ar gyflawniadau'r ddau ddegawd diwethaf, sy'n cynnwys rhoi cyngor ar fwy na 420 o feddyginiaethau.

Darllen ragor yma.





*Dr June Raine, Chief Executive of the MHRA addresses the conference*

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Canllaw i gydweithio rhwng y GIG, contractwyr gofal sylfaenol a'r diwydiant fferyllol

Rhagfyr 2022

Mae AWTTC wedi diweddaru canllawiau sy'n nodi'r gofynion a'r ystyriaethau allweddol ar gyfer cydweithio llwyddiannus rhwng GIG Cymru, contractwyr gofal sylfaenol a'r diwydiant fferyllol ac mae'n disodli'r ddogfen gwaith partneriaeth flaenorol.

Darllenwch ragor yma.

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaetha

## Darganfyddwch fwy am broses Meddyginiaethau Cymru'n Un trwy wylio eu fideo animeiddiedig Newydd

Medi 2022

Mae'r fideo animeiddiedig yn esbonio'n fanwl sut mae proses Meddyginiaethau Cymru'n Un yn gweithio wrth gynghori GIG Cymru ar feddyginiaethau. Os byddant yn cymeradwyo ystyriaeth 'Cymru Gyfan' ar gyfer argymhellion cadarnhaol, bydd hyn yn sicrhau bod meddyginiaethau ar gael ledled Cymru gyfan.

Darllen ragor yma.

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaetha

## Cyngor Newydd ar feddyginiaethau i GIG Cymru

Rhagfyr 2022

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo argymhellion gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan ynghylch deg feddyginiaethau rhwng misoedd Hydref a Rhagfyr 2022.

- Cyngor mis Hydref ar Feddyginiaethau Newydd – Darllenwch fwy yma.
- Cyngor mis Tachwedd ar Feddyginiaethau Newydd – Darllenwch fwy yma.
- Cyngor mis Rhagfyr ar Feddyginiaethau Newydd – Darllenwch fwy yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Canllawiau Cymru gyfan ar gyfer y bwlch rhwng presgripsiynau

Hydref 2022

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran bwlch rhwng presgripsiynau, ac yn nodi cyfres o argymhellion ar gynyddu bwlch rhwng presgripsiynau lle bo'n briodol.

Darllen ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Presgripsiynu ar sail gwerth – Presgripsiynu optimaidd er mwyn gwella iechyd

Hydref 2022

Nod cyffredinol y rhaglen presgripsiynu ar sail gwerth yw optiomeiddio meddyginiaethau i sicrhau mwy o werth.

Darllen ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2022-2023: Adroddiadau chwarterol

Hydref 2022

Mae Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPIs) ar gyfer 2022-2023 yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd.

Darllen ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Adnoddau ar gyfer rheoli poen yn ffarmacolegol

Tachwedd 2022

Datblygwyd yr adnoddau hyn ar gais Llywodraeth Cymru, a'u nod yw cefnogi'r gwaith o bresgripsiynu meddyginiaethau a ddefnyddir yn GIG Cymru i reoli poen.

Darllen ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Fframwaith optimeiddio meddyginiaethau

Rhagfyr 2022

Mae'r fframwaith hwn yn rhoi manylion y prosesau sy'n ymwneud â datblygiad adnoddau optimeiddio meddyginiaethau a gymeradwyir ac a gyhoeddir gan AWMSG, yn disgrifio sut y gellir cynnig prosiectau newydd ac yn egluro sut y caiff y cynigion hyn eu hystyried.

Darllen ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol

Rhagfyr 2022

Datblygwyd y canllaw hwn i roi cyngor cynhwysfawr ar reoli cyffuriau gwrthficrobaidd ar gyfer heintiau cyffredin mewn gofal sylfaenol, gan ystyried data rhagdueddiad pathogenau lleol a gwrthficrobaidd yng Nghymru.

Darllen ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru

Rhagfyr 2022

Mae Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU), uned ddadansoddol AWTTC, wedi datblygu dangosfwrdd er mwyn adrodd ar gynnydd mewn lleihau ôl-troed carbon anadlyddion a ddefnyddir ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru.

Darllen ragor yma.

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Achosion posib o wenwyno cyanid a adroddwyd i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau: adolygiad 12 mlynedd

Hydref 2022

Mae gwenwyno syanid yn gymharol brin, ond gall ddigwydd ar ôl dod i gysylltiad â chynhyrchion hylosgi, deunyddiau peiriannau, cemegau diwydiannol, a thrwy ei ryddhau'n fwriadol. Gall fod yn anodd ac yn gymhleth adnabod a rheoli gwenwyndra syanid mewn lleoliad clinigol. O ganlyniad, cynhaliodd y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau (NPIS) adolygiad cynhwysfawr yn ddiweddar o achosion o wenwyno syanid a adroddwyd i'r NPIS dros y 12 mlynedd diwethaf (2009-2018), er mwyn cael gwell dealltwriaeth o wenwyndra syanid a sut i'w drin.

Darllen ragor yma.




WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Tocsicoleg Feddygol 2022, 7-8 Hydref, Caerdydd, y DU

Hydref 2022

Cyflwynodd nifer o arbenigwyr tocsicoleg nodedig o bob rhan o'r DU ystod addysgiadol o bynciau gwenwynegol fel gwenwyno yn ystod beichiogrwydd, gwenwyno pediatrig, datblygiadau newydd mewn gwenwyno â paracetamol, tocsicoleg ymbelydredd, gwenwyn plwm, a gwenwyndra cardiofasgwlaidd.

Darllen ragor yma.



WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau, 2021-2022.

Rhagfyr 2022



Comisiynir y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau (NPIS) i ddarparu gwybodaeth a chyngor 24 awr y dydd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol y GIG ledled y DU i gefnogi'r gwaith o reoli cleifion yr amheuir eu bod wedi cael eu gwenwyno. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr NPIS eu hadroddiad blynyddol yn crynhoi eu gweithgareddau ar gyfer y cyfnod 2021-22.

Darllen ragor yma.

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru yn Cyflwyno Cwrs Hyfforddi Rhyngwladol TOXBASE®, Almaty, Kazakhstan

Rhagfyr 2022

Yn ddiweddar, cyflwynodd Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU) gwrs hyfforddi rhyngwladol deuddydd a ariannwyd gan WHO ar TOXBASE® ddiwedd mis Hydref 2022, yn Almaty, Kazakhstan. Roedd dros 50 o gynrychiolwyr yn bresennol o bob rhan o Ganol Asia, gan gynnwys o'r wlad a oedd yn cynnal y digwyddiad, sef Kazakhstan, yn ogystal ag Uzbekistan, Tajicistan, Pacistan, Kyrgyzstan a Mongolia.

Darllen ragor yma.

Yellowcard
Centre
Wales

## Gwyliwch fideo animeiddiedig newydd Canolfan Cerdyn Melyn Cymru i ddarganfod beth sydd gan eu masgot Charlie i'w ddweud

Tachwedd 2022

Mae fideo animeiddiedig newydd Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru yn cynnwys eu masgot Charlie, sy'n esbonio pam a sut i roi gwybod am sgil-effaith a amheuir i feddyginiaeth neu broblem gyda dyfais feddygol.

Gallwch ei wylio yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru 2023

Mae Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru yn gasgliad o gamau gweithredu i gefnogi fferylliaeth gymunedol, ymarfer deintyddol cymunedol, optometreg gymunedol ac ymarfer cyffredinol i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu harferion o ddydd i ddydd ac i gyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Darllen ragor yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# Wythnos Ymwybyddiaeth o Wrthfiotigau Tachwedd 18 i 24

Tachwedd 2022

Trwy gydol wythnos Ymwybyddiaeth Gwrthfiotigau amlygodd AWTTC ein gwaith yn y maes hwn.

Mae'r dogfennau'n cynnwys:

Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol, datblygwyd y canllaw hwn i roi cyngor cynhwysfawr ar reoli cyffuriau gwrthficrobaidd ar gyfer heintiau cyffredin mewn gofal sylfaenol.

Archwiliad Cenedlaethol CEPP - Canolbwyntio ar bresgripsiynu gwrthfiotigau

Canllaw Stiwardiaeth Poenliniarwyr Cymru Gyfan - canllaw AWMSG a gymeradwywyd yn ddiweddar ar stiwardiaeth poenliniarwyr, sy'n golygu mai Cymru yw'r genedl gyntaf yn y DU i gyhoeddi'r canllaw hwn

Rheoli heintiau'r llwybr wrinol symptomatig rheolaidd ymhlith merched sy'n oedolion

Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth mewn Ysbytai - Pecyn Adolygu Gwrthfiotigau (ARK) - yn darparu templed cyson ar gyfer adolygu'r broses o bresgripsiynu gwrthfiotigau, sydd hefyd wedi cael ei gydnabod gan AWMSG fel arfer da yn GIG Cymru.

Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol yn cael eu defnyddio i amlygu blaenoriaethau therapiwtig ar gyfer GIG Cymru ac yn cymharu'r ffyrdd y mae gwahanol bresgripsiynwyr a sefydliadau'n defnyddio meddyginiaethau neu grwpiau o feddyginiaethau penodol.